Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Adroddiad (SLC (3) 29-09)

Dyddiad: 2 Rhagfyr 2009
Amser: 9.30am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel

CONTENTS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 2 Rhagfyr 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, William Graham AC, Mike German AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC355 - Gorchymyn Strategaethau Troseddau ac Anhrefn (Disgrifiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 16 Tachwedd 2009. Fe'i gosodwyd ar 19 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 28 Rhagfyr 2009

Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC354 - Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 16 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 18 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 20 Ionawr 2010

Mae adroddiad y Pwyllgor ar yr Offeryn Statudol hwn yn amgaeedig yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn.

Gohebiaeth y Pwyllgor: ymateb y Dirprwy Weinidog i lythyron y Cadeirydd: SLC313 - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2009

Trafododd yr Aelodau ymateb diweddaraf y Dirprwy Weinidog i'r Cadeirydd mewn perthynas â'r rheoliadau hyn. Cytunodd y Pwyllgor na fydd yn cymryd

camau pellach hyd nes bod y rheoliadau diwygio ar gael. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor hefyd i wahodd y Gweinidog i'r cyfarfod pan fydd y Pwyllgor yn craffu ar y rheoliadau er mwyn ateb cwestiynau gan yr Aelodau.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

2 Rhagfyr 2009

Atodiad 1

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-29-09)

SLC354

Adroddiad drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2009

Estynnwyd gan Ddeddf Plant 2004 ystyr "organisation" yn Neddf Plant 1989 i gynnwys cymdeithas anghorfforedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 ac i Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 i roi effaith weinyddol i'r diwygiad hwnnw. Maent hefyd yn diwygio'r atodlen sy'n rhestru'r dogfennau a'r wybodaeth y mae'n ofynnol i geisydd sydd am gael ei gofrestru eu darparu pan fo person wedi ei benodi i fod â gofal am ofal dydd.

Gweithdrefn: Negyddol

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar sail y canlynol:

Y pŵer y nodir ei fod yn cael ei ymarfer gan Weinidogion Cymru i wneud y Rheoliadau hyn yn adran 76C o Ddeddf Plant 1989 ("Deddf 1989"), nad yw'n bodoli. [Rheol Sefydlog 15.2 (i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires], a [Rheol Sefydlog 15.2 (vi), ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

Mae testun Saesneg rheoliad 2 (2) yn cyfeirio at "corporate body" o fewn rheoliad 2 (1) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002, ond mae rheoliad 2 (1) yn cyfeirio at "body corporate". [Rheol Sefydlog 15.2 (vi)].

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

2 Rhagfyr 2009

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2009

"mae'r Llywodraeth yn derbyn o ran y ddau bwynt a godir gan y Pwyllgor Deddfwriaeth yn ei adroddiad ar Reoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2009 bod gwall drafftio wedi digwydd. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud a gosod offeryn statudol a fydd yn dirymu'r Rheoliadau hynny ac yn eu lle roi Rheoliadau wedi'u cywiro a fydd yn cyflawni'r effaith a fwriadwyd a byddant yn dod i rym ar yr un dyddiad ag a osodwyd eisoes sef 20 Ionawr 2010"